

# PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 13 GORFFENNAF 2022

Yn                   Cynghorydd Williams(Cadeirydd)  
bressenol:

Cynghorwyr Ash-Edwards, Ferguson-Thorne, Henshaw, Hunt,  
Stubbs, Thomson a/ac Waldron

## 1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR

Nodwyd yn amodol ar gynnwys y Cynghorydd Ash-Edwards yn Aelodaeth y Pwyllgor.

## 2 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd.

## 3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Chowdhury.

## 4 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

## 5 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 6 : CYFLAWNI CAERDYDD - CRYFACH, TECACH, GWYRDDACH

Cafodd yr aelodau wybod bod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt ymgyswrtio â datganiad y weinyddiaeth newydd o fwriad polisi am y 5 mlynedd nesaf. Bydd y ddogfen hon yn sail i bolisïau a strategaethau sydd ar y gweill, y bydd y pwyllgor hwn yn ymwneud â llawer ohonynt drwy ein Cylch Gorchwyl; y strategaeth allweddol yw'r Cynllun Corfforaethol a fydd yn cymryd ei gyfarwyddyd o'r datganiad hwn.

Er mwyn arwain y Pwyllgor drwy'r datganiad polisi, croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor
- Paul Orders, y Prif Weithredwr; a
- Gareth Newell, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i wneud datganiadau ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Ystyriodd yr aelodau fod datganiad polisi Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn cynrychioli agenda feiddgar ac uchelgeisiol i'r Ddinas. Nodwyd y nifer o ymrwymïadau sydd ynddo sydd o dan Gylch Gorchwyl y Pwyllgor. Ystyriodd yr aelodau y dylid cynnwys pynciau fel gweithio hybrid, datblygu digidol, rheoli asedau a gweithio mewn partneriaeth yn rhaglennu gwaith y Pwyllgor.

Gan gyfeirio at flaenoriaeth o fewn y Portffolio Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i 'Gryfhau ein Strategaeth Gaffael Sy'n Gymdeithasol-gyfrifol i gadw gwariant y Cyngor yn lleol ac yn fwy hygyrch i BBaCh,' mynegodd y Pwyllgor ddiddordeb yn y modd y gall y Cyngor gryfhau ei strategaeth gaffael i alluogi cadwyni cyflenwi lleol. Nododd aelodau fod cynnydd cryf wedi bod hyd yma gyda Dangosydd Perfformiad Allweddol sy'n datgelu bod 70% o wariant y Cyngor o fewn rhanbarth Caerdydd.

Roedd aelodau'n awyddus i archwilio effaith y cynnydd mewn costau byw a sut y byddant yn herio'r Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau. Nododd yr aelodau fod chwyddiant yn mynd i fod yn broblem fawr am flynyddoedd i ddod, yn y pwysau galw y mae'n eu creu ar wasanaethau'r Cyngor ac ar gostau darparu gwasanaethau.

Ym marn yr aelodau, mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysicach nag erioed, ac felly roeddent yn falch o glywed y bydd y datganiad polisi'n cael ei integreiddio gyda fframweithiau partneriaeth a chyllidebau'r Cyngor.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod gan bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gytundeb ar yr un pwrpas ac roeddent wedi ceisio aliniad polisi ar Amcanion Lles 5 mlynedd yn ôl. Nododd yr aelodau fod swyddogion wedi cael y dasg o adolygu pa mor dda y mae'r aliniad polisi hwnnw'n gweithio i lywio'r Cynllun Lles 5 mlynedd diwygiedig, sydd i ddod yn yr hydref.

Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith y byddai penderfyniadau anodd o ran adnoddau i'w gwneud i gyflawni'r datganiad polisi hwn ac felly roeddent yn falch o glywed bod y datganiad polisi wedi'i drafod yn llawn gydag aelodau'r Cabinet ac uwch reolwyr cyn eu cyhoeddi.

Nododd aelodau y byddai angen cynnal trafodaethau ar y gyllideb maes o law er mwyn sicrhau rhaglen y gellir ei darparu sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cyllidebol.

Roedd aelodau'n awyddus i ganfod pa fesurau mae'r Cyngor wedi eu cymryd i liniaru yn erbyn chwyddiant yn nhermau'r rhaglen gyfalaf uchelgeisiol. Nododd yr aelodau fod llawer o brosiectau cyfalaf yn cael eu hariannu gan grantiau neu arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru, neu yn wir gan brosiectau buddsoddi i arbed.

Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod monitro gwell y rhaglen Gyfalaf bellach ar waith er mwyn osgoi cronni tanwariant cyfalaf, a bod rheolaeth o'r rhaglen gyfalaf yn dynnach a'r gwario wedi'i broffilio'n agosach.

Nododd aelodau farn y Prif Weithredwr fod llawer mwy o bwyslais ar y rhaglen gyfalaf yn y broses datblygu cyllideb 2023/24.

Roedd gan aelodau ddiddordeb mewn sut mae'r Cyngor yn mynd at asesiad perfformiad aelodau'r Cabinet wrth gyflawni'r addewidion portffolio a nodwyd yn y datganiad polisi. Nododd yr aelodau y byddai cyfarfod anffurfiol misol, sy'n canolbwyntio ar berfformiad, yn asesu cynnydd yr Aelod yn erbyn y datganiad polisi a

bod prydlondeb yn erbyn y blaenoriaethau a'r targedau o fewn portffolios yn cael eu nodi'n glir yn y Cynllun Corfforaethol bob blwyddyn ac yn galluogi dwyn i gyfrif yn llawn.

Cododd yr aelodau bryderon am ansicrwydd ein dyfodol economaidd, o ffactorau anhysbys allanol na ellir eu rheoli. Mae chwyddiant, BREXIT, rhyfel Wcráin, ac ansefydlogrwydd arweinyddiaeth genedlaethol yn cyfuno i gyflwyno her allan o reolaeth a byddai angen i'r Cyngor gymryd camau doeth wrth ymateb i'r argyfwng presennol. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y gall y Cyngor barhau i gyflawni gyda pholisïau cryf a swyddogion galluog.

**PENDERFYNWYD:** CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelodau Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 7 : STRATEGAETH Y GYLLIDEB 2023/24

Cynghorwyd yr aelodau fod yr eitem hon yn rhoi cyfle iddynt ystyried strategaeth a dull y Cyngor o ddatblygu cynigion cyllideb 2023/24, ac yn benodol dealltwriaeth lawnach o'r gwaith gwydnwch ariannol sydd ar y gweill i fynd i'r afael â'r heriau a achosir gan chwyddiant, yr argyfwng ynni, cyfraddau llog, y farchnad lafur a thwf economaidd gwan a allai gwtogi ar gyllid y sector cyhoeddus. Mae'r pwyllgor yn cynnal gwaith craffu cyn penderfynu ar adroddiad i'r Cabinet yfory, a gan ei fod yn adroddiad mor bwysig ar gyfer deall yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, roedd y Cadeirydd wedi gofyn i'r swyddogion roi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

Er mwyn arwain y Pwyllgor drwy'r datganiad polisi, croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Chris Weaver;
- Chris Lee - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac
- Ian Allwood, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad. Rhoddodd Swyddogion gyflwyniad i'r Aelodau ac ar ôl hynny gofynnwyd iddynt am unrhyw sylwadau, arsylwadau a chwestiynau.

Roedd yr aelodau o'r farn bod adroddiad Strategaeth y Gyllideb 2023/24 yn gyflwyniad rhagorol o sefyllfa cynllunio ariannol y Cyngor.

Nododd yr aelodau fod bwlc o £29m yn y gyllideb i lenwi yn erbyn cefndir economi anwadal, pwysau chwyddiant, ynni, tanwydd, bwyd, costau cyflogaion, a chynnydd mewn ariannu cyfalaf. Roedd yr aelodau, felly, yn falch o glywed bod neges gref wedi mynd allan i Gyfarwyddwyr y bydd, eleni yn fwy nag erioed, yn hanfodol i reoli cyllidebau'n effeithlon. Nododd aelodau y bydd angen arbed £24m er mwyn cau'r bwlc yn y gyllideb.

Roedd gan aelodau ddiddordeb yn amlygiad y Cyngor i bwysau chwyddiant a cheisiwyd dealltwriaeth o ba mor agored yw'r Cyngor i anwadalwch chwyddiant. Cafodd aelodau wybod bod chwyddiant yn 9% ar hyn o bryd, a nodwyd bod cynghorwyr trysorlys y Cyngor o'r farn y bydd chwyddiant yn cyrraedd uchafbwynt ar 11%, cyn gostwng i tua 4% a 2.5% erbyn 2024/25. Croesawodd yr aelodau gynnig y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid i archwilio hyn ymhellach gyda'i dîm a darparu ymateb ysgrifenedig.

Nododd y Pwyllgor fod wedi bod yn ofynnol i'r Cyngor hwn leihau'r gwariant gan £200m dros y 10 mlynedd diwethaf, sy'n cynrychioli traean o gyfanswm y gyllideb mewn termau real. Gan gofio anwadalwch yr economi, roedd yr Aelodau yn awyddus i sicrhau bod arian wrth gefn yn ddigonol. Nododd yr aelodau eu bod ar £2m, gyda mwy o gyllidebau wrth gefn sy'n benodol i Wasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion ac arian ychwanegol wrth gefn o'r Gronfa Caledi Covid.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y gyfradd genedigaethau yn gostwng a goblygiadau canlyniadol i wasanaethau'r Cyngor. Nododd aelodau fod niferoedd mewn ysgolion cynradd yn gostwng ar hyn o bryd, a fydd yn effeithio ar niferoedd mewn ysgolion uwchradd sy'n mynd trwy'r system addysg, ac mae disgwyl i niferoedd cyffredinol ostwng yn fwy hir dymor. Nododd aelodau hefyd fod newidiadau yn y boblogaeth yn effeithio ar y setliad ariannol y gall y Cyngor ddisgwyl eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.

Roedd gan aelodau ddiddordeb yn llwyddiant Trosglwyddo Asedau Cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf, ac a oedd yr arbedion a gyflawnwyd fel yr oedd y Cyngor wedi'i ragweld, gan eu bod yn ymddangos eu bod wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai'r aelodau'n croesawu'r cyfle i edrych yn fanylach ar hyn fel rhan o raglen waith y Pwyllgor a gofyn i swyddogion roi crynodeb i'r Pwyllgor, gan gynnwys ffigyrau, o'r arbedion a wnaed i gyllideb y Cyngor o ganlyniad.

Nododd aelodau fod y Gyfarwyddiaeth bellach yn cael y dasg o nodi cynigion arbedion i fodloni'r gofyniad arbedion, effeithlonrwydd digidoleiddio yn ddefnyddol a, lle bo'n bosibl, cynigion cynhyrchu incwm yn hytrach na chynigion newid gwasanaethau. Nododd aelodau, lle mae arbedion yn cael eu cymryd, nad ydynt o reidrwydd ar yr un lefel ar draws pob Cyfarwyddiaeth. Nododd aelodau hefyd y bydd arbedion yn cael eu harwain gan bolisi, gan ystyried y datganiad Cryfach, Tecach, Gwyrddach i benderfynu ble y dylai blaenoriaethau'r gyllideb orwedd.

Gofynnodd y Pwyllgor pa amcangyfrifon sy'n cael eu defnyddio i sicrhau bod y Cyngor yn cael ei baratoi os yw'r setliad yn cyrraedd yn hwyr. Nododd yr aelodau lefelau doethineb a llinell gyllideb o £3m i ddelfio â phwysau sy'n dod i'r amlwg a gweld tystiolaeth o fwriad i sicrhau bod y Cyngor yn barod am unrhyw risgiau a chydabyddiaeth y gallai fod angen i'r llinell bwysau sy'n dod i'r amlwg dyfu yn dibynnu ar ddyfarniadau cyflog yn y sector cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:** CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelodau Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 8 : BUSNES PWYLLGOR - RHAGLEN WAITH 2022/23

Gofynnwyd i aelodau gytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer datblygu a chytuno ar raglen waith y pwyllgor

- Y cam cyntaf (sydd eisoes ar y gweill) yw nodi rhestr o eitemau rhaglen waith posibl ar gyfer blaenoriaethu.
- Cynigiodd y Cadeirydd gylchredeg y rhestr hon erbyn diwedd y mis, gyda chais i'r Aelodau adolygu a rhoi adborth fel y gall y Pwyllgor yna fireinio a dod â rhaglen ddrafft yn ôl i bwyllgor mis Medi i'w gymeradwyo.
- Bydd angen blaenoriaethu'r eitemau, o gofio'r ystod o feysydd pwnc sy'n dod o dan y Pwyllgor, cyfyngiadau'r gefnogaeth sydd ar gael a nifer y cyfarfodydd sydd wedi eu rhaglenni. Mae hyn yn sicrhau y caiff yr amser a'r adnoddau sydd ar gael i'r Pwyllgor yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.
- Bydd y prif Swyddog Craffu yn drafftio'r rhestr o eitemau posibl yn dilyn ymchwil ac ymgynghori â ffynonellau fel y nodir yn yr adroddiad a gan ystyried yr heriau a amlinellir gan swyddogion arweiniol yng nghyfarfod ymsefydlu anffurfiol y Pwyllgor fis diwethaf. Bydd barn aelodau sy'n cael eu cyfleu ym mhob sesiwn sefydlu hefyd yn cael ei chynnwys.
- Gwahoddir aelodau i flaenoriaethu eitemau wrth gyfathrebu ar-lein drwy'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Craffu. Bydd y cynigion wedyn yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor llawn ym mis Medi i gael sêl bendith ffurfiol i'r rhaglen waith.

PENDERFYNWYD: cytuno ar y dull o raglennu gwaith

## 9 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi'u derbyn.

## 10 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.15 pm